

Cyngor Celfyddydau Cymru

---

# “Ymdrechu i ragori”

Fframwaith Ansawdd i Ddatblygu a Chynnal  
effaith celfyddydau Cymru

---

Hydref 2019



Cyngor Celfyddydau Cymru  
Arts Council of Wales



Noddir gan  
Lywodraeth Cymru  
Sponsored by  
Welsh Government



Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, ar dâp sain ac ar ffurf Iaith Arwyddion Prydain. Byddwn yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu polisi cyfle cyfartal.

## Cynnwys

Ysbrydoli: creadigrwydd a chelfyddydau Cymru	4
Cyflwyniad	5
Mae ein huchelgais i'r celfyddydau wedi'i lywio gan strategaeth	5
Nid strategaeth mo <i>Ymdrechu</i> i ragori	5
Llesiant a chynaliadwyedd – egwyddor trefnu ein gwaith	5
Creu Cymru fwy cyfartal	6
Penderfynu, darparu'r dystiolaeth	6
Gwneud dewisiadau	6
1. Creu	8
Creu celfyddyd yw hanfod ein gwaith.	8
2. Cyrraedd	12
3. Cynnal	15
Rhagor o wybodaeth	23
Dolenni defnyddiol	23

## Ysbrydoli: creadigrwydd a chelfyddydau Cymru

### *Ein gweledigaeth yw Cymru Greadigol lle mae'r celfyddydau yn ganolog i fywyd a llesiant y genedl.*

Mae ein strategaeth yn syml – caiff ei chrynhai mewn tri gair:

#### **Creu      Cyrraedd      Cynnal**

Un broses yw creu celfyddyd, sicrhau ei bod yn ymgysylltu â phobl a bod gwaddol iddi. Dyma'r themâu sy'n sail i'n gwaith.

Wrth gyfeirio at **Creu**, rydym ni'n golygu'r weithred o greu artistig. Rydym ni am feithrin amgylchedd ar gyfer ein hartistiaid a'n sefydliadau celfyddydol lle gallan nhw greu eu gwaith gorau. Oherwydd os byddwn ni'n **Creu'n** dda, rydym ni'n ysbrydoli pobl.

Os ydym ni'n ysbrydoli pobl, maen nhw'n ein deall. Maen nhw ei eisiau'r celfyddydau ac yn eu gwerthfawrogi. Felly mae'n rhaid inni ysbrydoli pobl Cymru i fwynhau a chymryd rhan yn y gorau sydd gan ein cenedl i'w gynnig. Dyma sy'n ein galluogi i **Gyrraedd** a hynny'n bellach nag o'r blaen.

Ac os ydym ni'n creu rhywbeth o werth neu gynnwys rhagor o bobl, bydd yn rhaid inni ddiogelu a **Chynnal** y pethau hyn mewn ffordd a fydd yn parhau.

Ond drwy'r amser, dyma'r nod: Cymru – gwlad greadigol.

Mae tair blaenoriaeth yn ategu ein strategaeth:

1. Hyrwyddo **Cydraddoldebau** fel sylfaen ar gyfer ymrwymiad clir i gyrraedd yn ehangach ac yn ddyfnach bob cymuned ledled Cymru.
2. **Cryfhau Gallu a Gwytnwch** y sector, gan alluogi talent greadigol i ffynnu.
3. **Galluogi Cyngor y Celfyddydau i weithio'n fwy effeithiol**, gan gydweithio'n fwy dychmyglon â phartneriaid o'r un anian ledled Cymru.

## Cyflwyniad

### Mae ein huchelgais i'r celfyddydau wedi'i lywio gan strategaeth

Rydym ni'n gweithio i greu amgylchedd lle gall artistiaid feithrin, hybu a chynnal eu gwaith gorau. Rydym ni'n esbonio hyn yn fanylach yn ein strategaeth ar gyfer y celfyddydau – [Ysbrydoli: creadigrwydd a'r celfyddydau](#).

Wrth gefnogi'r gwaith gorau, rydym ni am annog cynifer o bobl â phosibl i fwynhau gweithgarwch creadigol a chymryd rhan ynddo. Credwn ni fod gan y celfyddydau'r potensial i wneud cyfraniad pwysig at ein lles ac ansawdd ein bywyd. Felly rydym am weld pobl Cymru yn cael eu hysbrydoli gan gelfyddydau sy'n fywiog a diddorol, sy'n cyffwrdd â ni ac sy'n tanio ein dychymyg a'n creadigrwydd - yn bennaf celfyddydau sy'n ein herio i chwilio am well dealltwriaeth o'n hunain ac o'r byd o'n cwmpas. **Creu: Cyrraedd: Cynnal.**

### Nid strategaeth mo Ymdrechu i ragori

Mewn byd llawn polisiau a strategaethau, mae Ymdrechu i ragori yn ddogfen wahanol. Yn rhannol mae'n rhestr wirio, yn rhannol mae'n llawlyfr am sut mae rhedeg sefydliad. Mae tri phennawd iddi - **Creu: Cyrraedd: Cynnal.**

Yn aml mae pobl yn gofyn inni sut rydym ni'n gwahaniaethu rhwng sefydliadau sy'n perfformio'n wych ac eraill llai llwyddiannus. Felly aethom ati i greu Ymdrech i ragori yn fframwaith ansawdd. Mae'n ddogfen sy'n nodi nodweddion cyffredin y sefydliadau mwyaf llwyddiannus.

Wrth ichi ddarllen y ddogfen, a ydych chi'n adnabod eich sefydliad eich hun? Os ydych chi'n gallu adnabod nifer sylweddol o nodweddion, mae eich sefydliad ar y trywydd iawn i fod yn un effeithiol ac effeithlon. Ond wrth gwrs nid yw pob sefydliad yr un fath. Os sefydliad cenedlaethol mawr gyda throsiant gwerth miliynau o bunnoedd ydych chi, byddem ni'n disgwyl ichi allu dangos eich cyflawniadau yn erbyn y rhan fwyaf o'r mesurau yma. Os sefydliad llai, mwy lleol ydych chi, ni fydd y cyfan yma'n berthnasol. Chi yw'r un i ddewis a dethol yr agweddau perthnasol ar eich sefydliad.

### Llesiant a chynaliadwyedd – egwyddor trefnu ein gwaith

Rydym ni'n rhannu bwriad Llywodraeth Cymru o wneud Llesiant a chynaliadwyedd yn egwyddor sy'n llywio pob agwedd ar ein gwaith, ein buddsoddiad a'n gwasanaethau.

Mae uchelgais Llywodraeth Cymru wedi'i ymgorffori mewn deddfwriaeth – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'n cynrychioli ffordd wahanol o feddwl, cynllunio a gweithio. Mae hyn yn golygu cymryd golwg eang ar yr hyn sy'n gwneud Cymru yn wlad iach a ffyniannus drwy gydnabod yr agweddau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol sy'n effeithio ar lesiant pobl a chymunedau. Os byddwn ni'n gwneud hyn yn iawn, byddwn ni'n helpu i sicrhau gwell ansawdd bywyd i'n cenedlaeth ni a chenedlaethau'r dyfodol.

## Creu Cymru fwy cyfartal

Dim byd newydd inni felly yw gweithio i gael rhagor o gydraddoldeb ar draws y celfyddydau. Roeddem ni wedi cyhoeddi ein strategaeth gydraddoldeb gyntaf i bobl anabl ym 1995 a'n strategaeth gyntaf am amrywiaeth ddiwylliannol yn 2000. Rydym ni wedi buddsoddi mewn hyfforddiant a chymorth ar gyfer sefydliadau celfyddydol i'w hannog i weithredu cynlluniau cydraddoldeb llwyddiannus. Rydym ni hefyd wedi darparu cymorth ymarferol drwy greu ein [Canllaw a Phhecyn Cymorth Cydraddoldebau](#) ar-lein. Wedyn roeddem ni wedi lansio mentrau megis Hynt (cynllun cerdyn hygyrchedd i bobl anabl Cymru gyfan) a Chamau Creadigol (rhaglen ddatblygu i gefnogi artistiaid a sefydliadau sydd wedi profi rhwystrau yn eu hymdrechion i gael arian).

Ond mae ein hymchwil yn dangos nad yw presenoldeb pobl â nodweddion gwarchodedig yn y boblogaeth yn cael ei adlewyrchu o bell ffordd yn y gweithgareddau rydym ni'n eu hariannu. Ar hyn o bryd mae celfyddydau Cymru yn cyrraedd nifer bach iawn o bobl â nodweddion gwarchodedig: dyna galon y gwir. Mae'r bwlch yn arbennig o amlwg yn y nifer isel iawn o bobl anabl a'r rhai o gefndiroedd du, Asiaidd a lleiafrif ethnig sy'n gweithio neu sydd ar fyrddau rheoli. Mae'r gwahaniaeth yma'n achosi cryn bryder inni.

Rhaid inni weld croestoriad ehangach o'r boblogaeth yn cael y cyfle i fod yn rhan o'r celfyddydau sy'n cael arian y cyhoedd, boed yn gyfranogwr, yn weinyddwr neu'n aelod o gynulleidfa neu fwrdd. Ein nod yw mynd ymhellach na chyfateb y niferoedd yn y boblogaeth. Dylai'r celfyddydau sy'n cael arian y cyhoedd arwain drwy esiampl a bod yn uchelgeisiol. Maes allweddol fydd hwn inni ei asesu o ran effeithiolrwydd ein sefydliadau.

## Penderfynu, darparu'r dystiolaeth

Mae Ymdrechu i ragori yn fframwaith ar gyfer ansawdd a datblygiad cynaliadwy sy'n ein helpu ni – a'r sefydliadau a ariannwn – i feddwl am eu gwaith a'i drafod. Rydym ni am gefnogi'r gweithgarwch gorau a mwyaf cynaliadwy a bydd raid inni esbonio sut y byddwn ni'n cloriannu hyn.

Mae Ymdrechu i ragori yn cynnig un templed cyson ar gyfer monitro ac asesu. Mae'n nodi'r ystod eang o nodweddion rydym ni'n eu hystyried wrth gloriannu llwyddiant sefydliad. Dyma'r ffon fesur ar gyfer pob sefydliad rydym ni'n ei ariannu, yn fawr ac yn fach, yn rhyngwladol ac yn fwy lleol.

## Gwneud dewisiadau

Mae nifer cynyddol o sefydliadau celfyddydol sydd am ddatblygu eu gwaith yng Nghymru. Mae hyn yn hynod gyffrous. Ond mae'n golygu ein bod yn wynebu penderfyniadau sy'n gynyddol anodd am sut rydym ni'n dyrannu'r arian sydd ar gael inni. A dyma'r her a'r ddyletswydd mae'r cyhoedd yn disgwyl inni eu hysgwyrddo. Ond mae angen i'n sefydliadau ddeall ein dewisiadau a'n meini prawf sy'n llywio penderfyniadau ariannu.

## Rydym ni o hyd yn trafod 'ansawdd'.

Mae ansawdd yn anodd ei ddiffinio. Mae'r celfyddydau'n newid a datblygu. A newid a datblygu mae'r consensws am sut y dylid cefnogi a chynnal y gwaith hefyd. Nid yw Ymdrech i ragori yn ddogfen ddigynnewid sy'n aros yn ei hunfan. Yn y dyfodol byddwn ni'n ei hadolygu, ei datblygu a'i mireinio'n gan weithio'n agos gydag ein sefydliadau.

Rydym ni'n bwriadu i Ymdrech i ragori gael ei ddefnyddio o hyd ac o hyd. Ond o bryd i'w gilydd – yn enwedig yn ystod un o'n [Hadolygiadau Buddsoddi](#) – mae pwysigrwydd y ddogfen yn cynyddu. Rydym ni'n defnyddio adolygiadau buddsoddi i benderfynu ar aelodaeth o'r portffolio o sefydliadau sy'n cael arian a fydd wrth wraidd ein strategaeth i ddatblygu celfyddydau Cymru.

Nid yw bodloni'r gofynion yma'n gwarantu cael arian yn y dyfodol. Ond byddai'n anodd i unrhyw sefydliad gyflwyno achos cryf dros gael ei ariannu os nad oes ganddo dystiolaeth gadarn ei fod yn bodloni'r mwyafrif o'r gofynion. Os yw sefydliad yn:

- rhagori yn ei weithgarwch artistig
- cyrraedd cynulleidfaoedd newydd a mwy amrywiol
- dangos ymrwymiad deallus i gynaliadwyedd
- wedyn mae'n debygol y bydd gweddill ei waith o safon hefyd.

# 1. Creu

## Creu celfyddyd yw hanfod ein gwaith.

Mae pob un o'n sefydliadau'n creu ei waith yn ei ddull unigol ei hun. Ond hanfod pob sefydliad yw'r awen greadigol, y diddordeb ysol sy'n cau popeth arall allan sy'n sbarduno cenhadaeth a gweledigaeth artistig. Does dim un ffordd seml o warantu gwaith gwych. Ond rydym ni bob amser yn awyddus i ddeall yn well sut mae sefydliadau'n llunio a gwireddu eu huchelgais artistig. Mae gennym ddiddordeb hefyd yn y ffordd mae sefydliadau'n ymgysylltu â'u cyhoedd a pha effaith mae hyn yn ei chael ar eu dewisiadau creadigol.

Mae creu celfyddyd lwyddiannus yn dibynnu ar:

- arweinyddiaeth artistig
- gweledigaeth sy'n rhagori ar y cyffredin
- yr hyder i fentro ac ymestyn y tu hwnt i'r ffiniau arferol

Ond rhaid rheoli mentro ac uchelgais yn gyson a chyfrifol gydag arbenigedd a gwybodaeth. Rydym ni o'r farn bydd sefydliad celfyddydol hyderus ac effeithiol yn ddewr ac yn mentro. Ond bydd hefyd yn asesu ei waith ei hun yn onest a thrylwyr ac addasu ei gynnyrch yn ôl yr angen.

Bydd gan sefydliad sy'n gadarn yn greadigol weledigaeth glir o'r hyn mae'n ceisio ei gyflawni gan ddeall cyd-destun ei waith. Bydd yn ceisio adborth beirniadol a newid pethau mewn ymateb i'r adborth. Bydd yn defnyddio'r wybodaeth i lywio ei weithgarwch yn y dyfodol. Bydd yn arweinydd ymhlith sefydliadau eraill ond hefyd yn ddigon hyblyg i greu partneriaethau heriol ac arloesol i roi budd i'r cyhoedd a'r sefydliad ei hun.



Gweithgarwch	Nodweddion	Dangosyddion llwyddiant
Gweledigaeth ac arweinyddiaeth artistig	Bod â gweledigaeth artistig gref a chydlynol – un mae'n ei chyfathrebu'n glir yn fewnol ac allanol	<p>Uchelgais artistig sy'n cael ei ddeall a'i barchu'n eang</p> <p>Cynllun busnes sy'n disgrifio gweledigaeth artistig glir a chryf – bwrdd sy'n trafod polisi artistig yn rheolaidd a'r holl sefydliad yn cael ei hawlio'n eiddo i bawb</p> <p>Gweledigaeth artistig sy'n cael ei meithrin a'i datblygu drwy fuddsoddi yn y staff creadigol - strategaethau dychmyglon ar waith i'r staff allweddol adnewyddu a datblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau</p> <p>Amgyffred clir o sut mae rôl a gwaith y sefydliad yn cyfrannu at ddatblygu celfyddydau Cymru (yn enwedig os yw'n gwmni cenedlaethol)</p>
	Perthynas glir rhwng polisi a'i waith	<p>Bwrdd sy'n gallu esbonio'n glir sut mae polisi'n cael ei droi'n weithgarwch a gallu egluro dewisiadau rhaglenni</p> <p>Cynnwys artistiaid yn ei waith a'i syniadau</p>
	Agored, hunanymwybodol a hunanfeirniadol	<p>Prosesau ar waith i fonitro, asesu ac adolygu gwaith - yn agored i wahanol fathau o adborth ac yn awyddus i'w derbyn</p> <p>Bwrdd sy'n cael adroddiadau ac asesiadau artistig rheolaidd a gonest – bod â ffyrdd o nodi'r hyn mae wedi'i ddysgu</p>

Gweithgarwch	Nodweddion	Dangosyddion llwyddiant
Rhaglen artistig	<p>Rhaglen weithgarwch sy'n gyffrous, ddiddorol ac o safon</p>	<p>Ymatebion cadarnhaol gan gynulleidfaoedd, cyfranogwyr a chwsmeriaid – y gwaith yn aml yn rhagori ar ddisgwyliadau cynulleidfaoedd, cyfranogwyr neu gwsmeriaid</p> <p>Adroddiadau cadarnhaol gan swyddogion y Cyngor, ymgynghorwyr ac artistiaid eraill</p> <p>Canmoliaeth feirniadol oddi wrth gylchgronau a'r cyfryngau uchel eu parch yn y maes</p>
	<p>Dulliau arloesol a dychmyglon o greu a chynnal gweithgarwch celfyddydol</p>	<p>Prosesau gwreiddiol i greu neu ddyfeisio gwaith</p> <p>Dulliau dychmyglon a rhesymegol o ddatblygu rhaglenni, gan gynnwys dull clir o fentro a rheoli risg</p>
Cyrhaeddiad technegol – crefft a sgîl	Gwaith o safon yn digwydd	<p>Defnyddio artistiaid, cynllunwyr, gwneuthurwyr a rheolwyr â sgiliau priodol</p> <p>Tystiolaeth o waith sydd wedi'i greu, ei lunio, ei gynhyrchu neu ei gyflwyno/ arddangos ag ôl meddwl arno</p>
Enw da	Marchnad gref i waith y sefydliad	Tystiolaeth bod y gwaith (neu sgiliau) y cwmni'n cael eu parchu a bod pobl yn eu ceisio neu fod galw amdanynt
	Artistiaid eraill yn cydnabod ansawdd y gwaith	<p>Gwobrau</p> <p>Partneriaethau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol</p>

Gweithgarwch	Nodweddion	Dangosyddion llwyddiant
		Gwahoddiadau i gymryd rhan mewn fforymau cenedlaethol a rhyngwladol
Y Gymraeg	Ymrwymiad arloesol i hyrwyddo gweithgarwch drwy gyfrwng y Gymraeg	<p>Datganiad clir o bolisi sy'n esbonio agwedd y cwmni at weithgarwch Cymraeg</p> <p>Os yw'n berthnasol, Cynllun Cymraeg penodol</p> <p>Tystiolaeth o dderbyn a gweithredu ein disgwyliadau o ran y Gymraeg</p>

## 2. Cyrraedd

O'r cychwyn yn deg bu gan arian cyhoeddus i'r celfyddydau ddau nod:

- creu rhagoriaeth hyrwyddo hygyrchedd i ragor o bobl fwynhau'r celfyddydau a chael budd ohonynt
- Yn amlach na heb, rhagoriaeth sy'n cael ei ffafrio dros hygyrchedd.

Rydym ni eisiau i gynifer o bobl â phosibl brofi a mwynhau'r celfyddydau. Ond mae dwy her.

Yr her gyntaf yw cynyddu'r gynulleidfa i'r sefydliadau a'r gweithgareddau rydym ni eisoes yn buddsoddi ynddynt. Yr ail her yw edrych y tu hwnt i hyn er mwyn dod o hyd i ffyrdd newydd o gynnwys y rhai â diddordebau eraill. I ateb yr her gyntaf rhaid sicrhau bod ein Portffolio'n gweithio hyd at ei allu gorau mewn rhagor o leoedd, gan gysylltu â'r rhwydweithiau eraill ledled Cymru. I ateb yr ail her rhaid dod o hyd i ffyrdd newydd o gyrraedd gwahanol gynulleidfaoedd sy'n flaenoriaeth inni.

Weithiau mae diffiniadau traddodiadol o ddiwylliant, creadigrwydd a'r celfyddydau yn gallu bod yn rhwystr i bobl rhag profi a mwynhau'r celfyddydau. Os ydym ni eisiau i ragor o bobl Cymru benderfynu bod y celfyddydau yn rhan o'u bywyd, bydd yn rhaid ystyried cydnabod gwahanol fathau o ymgysylltu â'r celfyddydau.

Mae rhai'n dadlau fod ein harian wedi'i glymu i fodel ariannu diffygiol, sef nad oes digon o bobl yn cymryd rhan mewn ystod draddodiadol o'r celfyddydau a diwylliant. Mae hyn yn ei dro'n awgrymu nad oes fawr o werth mewn gweithgareddau diwylliannol eraill. Efallai fod angen gwneud rhagor i gefnogi ymgysylltiad eang pobl yn eu bywyd creadigol unigol a chymunedol ar eu telerau eu hunain. Mae rhai'n galw hyn yn "greadigrwydd bob dydd". Mae gennym ddiddordeb byw yn y sefydliadau sy'n archwilio'r mater yma.

Yn ein profiad ni, y sefydliadau celfyddydol mwyaf effeithiol yw'r rhai sydd dan arweiniad celfyddydol ond sy'n canolbwyntio ar y gynulleidfa. Maen nhw hefyd wedi ymrwymo i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd, gwahanol ac amrywiol, gan ddymchwel y rhwystrau i bobl fanteisio ar y celfyddydau. Mae dymchwel rhwystrau'n un o'n blaenoriaethau pwysig. Rydym ni'n gobeithio creu cymdeithas sy'n coleddu cydraddoldeb a dathlu gwahaniaeth lle bynnag y bo.

Gweithgarwch	Nodweddion	Dangosyddion llwyddiant
<p>Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gynulleidfa, cyfranogwyr neu gwsmeriaid</p>	<p>Datblygu polisiau â'r nod o estyn cyrhaeddiad ac ymgysylltiad</p>	<p>Dangos dealltwriaeth glir o bwy yw ei 'gymuned'</p> <p>Gallu cyfleu buddion ei weithgareddau a'i gyfraniad at lesiant y gymuned</p>
	<p>Defnyddio'n rheolaidd ddata a gwybodaeth am gynulleidfa i lywio cynllunio a datblygu cyffredinol</p>	<p>Gosod targedau penodol</p> <p>Wedi nodi a dadansoddi'r rhwystrau rhag ymgysylltu - defnyddio data cynulleidfa a dadansoddiad o'r farchnad</p> <p>Comisiynu ymchwil berthnasol</p> <p>Cynnal arolygon cynulleidfa/cyfranogwyr/cwsmeriaid ac adborth</p> <p>Trafodaethau bwrdd rheolaidd am gynulleidfaeodd targed a sut i'w cyrraedd</p>
<p>Cydraddoldeb</p>	<p>Wedi ymrwymo i sicrhau bod y rhaglen a'r gweithgareddau yn hygyrch i'r gynulleidfa ehangaf bosibl - cyfle cyfartal a chynhwysiant yn cael eu hyrwyddo'n weithredol</p>	<p>Ymrwymiad i gydraddoldeb wedi'i adlewyrchu ym mholisiau ac arferion - gallu cyfeirio at enghreifftiau penodol o waith sydd wedi llwyddo i ddechrau symud rhwystrau i gynhwysiant</p> <p>Tystiolaeth o gyrraedd cynulleidfaeodd newydd a mwy amrywiol</p> <p>Wedi deall deddfwriaeth bresennol ac yn gweithredu arni a'r gofyniad i gydnabod nodweddion gwarchoddedig</p>

Gweithgarwch	Nodweddion	Dangosyddion llwyddiant
Ehangu ymgysylltiad	Bod â strategaethau sy'n egluro ei blaenoriaethau ymgysylltu	Rhaglenni gwaith wedi'u cynllunio i ymgysylltu â grwpiau cynulleidfa diffiniedig (er enghraifft plant a phobl ifanc, y celfyddydau a phobl hŷn)
Mesur effaith	Gallu mesur effaith ei waith dros dymor byr, canolig a hir	Tystiolaeth bod cynllunio at y dyfodol yn cael ei lywio gan ganfyddiadau
	Methodoleg glir	Gallu mesur effaith ei raglenni gwaith
Marchnata	Strategaethau clir ar waith i farchnata, hyrwyddo a datblygu gweithgareddau	Materion marchnata'n cael ei drafod gan y bwrdd a nodi marchnadoedd/grwpiau targed  Cynlluniau marchnata clir ar waith â digon o adnoddau (staff a chyllidebau) gyda phrosesau ar waith ar gyfer monitro ac adolygu
Cysylltiadau cyhoeddus	Datblygu perthynas â phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol	Rhanddeiliaid a phartneriaid yn cymryd rhan weithredol Wedi'i rwydweithio'n dda
Cyfathrebu	Dangos dull arloesol o ddatblygu ei ymgysylltiad â'r cyhoedd	Strategaeth gyfathrebu ar waith  Defnydd dychmyglon ac arloesol o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu

### 3. Cynnal

Os yw celfyddydau Cymru i ffynnu, bydd arnynt angen arweinyddiaeth gref ac entrepreneuriaidd. Mae hyn yn golygu codi sector sy'n uchelgeisiol ac arloesol ac sy'n gallu manteisio ar ei fuddsoddiad cyhoeddus. Dyma a wna'r sefydliadau gorau. Mae sefydliad gwydn wedi'i wreiddio'n agos yn y gymuned mae'n ei gwasanaethu ac mae'n mabwysiadu model busnes a all wrthsefyll newid rhagweladwy neu annisgwyl. Sefydliad gwydn yw un sydd â'r sgil, y gallu a'r adnoddau i oroesi yn y tymor hir.

Yn briodol ddigon, mae'r cyhoedd yn mynnu bod yr unigolion a'r sefydliadau maen nhw'n eu hariannu'n effeithlon a chost-effeithiol. Felly rydym ni'n disgwyl i'n sefydliadau gael y pethau sylfaenol yn iawn a sicrhau eu bod yn rheoli eu busnes mewn ffordd syml a ddiffwdan. Nid oes gan neb hawl i gael arian cyhoeddus – mae'n rhaid i bawb ei ennill.

Edrychwn ni at ein sefydliadau allweddol i arwain o ran arloesi, entrepreneuriaeth a datblygu cynulleidfaoedd. Rydym ni'n disgwyl iddynt gael eu rheoli a'u llywodraethu'n dda, a byddwn ni'n drwyadl wrth asesu hynny. Rydym ni hefyd yn disgwyl iddynt gydnabod pwysigrwydd gwerth am arian.

Mae'r celfyddydau'n ychwanegu gwerth mewn gwahanol gyd-destunau cymdeithasol ac economaidd:

- hybu iechyd a llesiant
- bywiogi addysg a dysgu
- cynnig hyfforddiant seiliedig ar y celfyddydau i sectorau eraill
- bod yn gonglfaen i adfywio cymunedol
- Mae gan weithgarwch felly fudd cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd clir.

Mae'n annhebygol i sefydliadau dyfu'n economaidd a chymdeithasol heb reolaeth gadarn a llywodraethu da. Mae bwrdd (neu gorff rheoli) cryf, ymroddedig a diwyd yn hanfodol i lwyddiant a gwytnwch unrhyw sefydliad sy'n cynnwys ystod o arbenigedd cynrychioliadol. Y bwrdd sy'n pennu cyfeiriad strategol y cwmni, cefnogi a herio'r staff wrth gyflawni amcanion y cwmni a monitro perfformiad ariannol ac artistig.

Mae ein byd yn newid a hynny'n gyflym. Mae sawl her sy'n cymryd sefydliadau artistig i wahanol gyfeiriadau:

- y newid yn yr hinsawdd
- deialog rhwng diwylliannau

- datblygu marchnadoedd rhyngwladol newydd

Maen nhw hefyd yn adlewyrchu'r materion a'r pryderon sy'n cael eu hymgorffori yn neddfwriaeth Llesiant Llywodraeth Cymru. Mae sefydliadau sy'n deall cynaliadwyedd yn gwybod nad cyfyngiad yw hyn o reidrwydd. Ond mae'r sefydliad sy'n amgylcheddol aeddfed yn debygol o fod wedi pwysu a mesur y dewisiadau a datblygu ei raglen waith yn unol â hynny.



Gweithgarwch	Nodweddion	Dangosyddion llwyddiant
Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	Deall goblygiadau'r Ddeddf a'u cynnwys yn nhrefodaethau'r bwrdd	Nodau llesiant a "phum ffordd o weithio" yn cael eu hadlewyrchu yn ei weithgareddau
Llywodraethu a rheoli	Bwrdd sy'n gweithredu ac ymgysylltu	Cyfansoddiad y bwrdd yn gymesur â'r dasg Bwrdd yn cymryd cyngor proffesiynol priodol lle bo angen
	Prosesau clir a thryloyw ar gyfer recriwtio a datblygu'r bwrdd	Cylch gorchwyl clir i'r bwrdd ac unrhyw is-bwyllgorau Recriwtio ar sail dadansoddiad rheolaidd o'r sgiliau sydd eu hangen
	Bwrdd yn derbyn sesiynau ymsefydlu a diweddariadau rheolaidd	Sefydlu rhaglen hyfforddi a datblygu'r bwrdd
	Wedi ymrwymo i wella amrywiaeth y bwrdd	Wedi gosod targedau penodol i wella amrywiaeth
Cynllunio	Bwrdd yn cymryd rhan weithredol wrth drafod a datblygu cyfeiriad y corff yn y dyfodol	Cynllun busnes sy'n cael ei fonitro, ei adolygu a'i ddiweddarau'n rheolaidd

Gweithgarwch	Nodweddion	Dangosyddion llwyddiant
	Dealltwriaeth glir gan y bwrdd o'i agwedd at risg	Sefydliad â chofrestr risg sy'n cael ei hadolygu a'i diweddarau'n rheolaidd
Rheoli a staffio	Arferion recriwtio agored a chyfartal	Org Cynlluniau clir i fod yn gyflogwr amrywiol Cryf o ran recriwtio a chadw staff
	Polisiau cyflogi blaengar	Llawlyfr staff cynhwysfawr
	Prosesau cynllunio a gwerthuso swyddi	Staff yn cael cyfleoedd i hyfforddi a datblygu
Rheolaeth ariannol	Gafael gadarn gan y bwrdd ar berfformiad ariannol	Cynhyrchu cyllidebau, cyfrifon rheoli, rhagolygon llif arian sy'n cael eu hadolygu (a'u herio lle bo angen) gan y bwrdd Bwrdd yn ymdrin yn brydlon ag amgylchiadau annisgwyl
Caffael	Ymrwymiad cryf i gyflawni arbedion effeithlonrwydd sy'n werth am arian	Cyflawni arbedion maint ac effeithlonrwydd
	Contractio gwaith mewn fframweithiau priodol y cytunwyd arnynt ac i safonau diwydiant	Cael ei gydnabod fel esiampl

Gweithgarwch	Nodweddion	Dangosyddion llwyddiant
Cynhyrchu incwm	Buddsoddiad cyhoeddus yn denu incwm ychwanegol o ffynonellau eraill	Is na'r gymhareb gyfartalog o gymhorthdal cyhoeddus i incwm a enillir  Sicrhau incwm gan noddwyr busnes, ymddiriedolaethau a sefydliadau
	Dull entrepreneuriaidd o gynhyrchu incwm	Manteisio ar bob cyfle priodol i gael incwm masnachol
	Cydwethio ag eraill i ymestyn oes cynnyrch a gwasanaethau presennol neu i greu rhai newydd	Cyd-gomisiynu, cyd-gynhyrchu, teithio gwaith  Datblygu ar y cyd wasanaethau a gweithgareddau
Manteisio ar gynhyrchion a gwasanaethau	Deall sut y gall technoleg ddigidol gynnog cyfleoedd newydd i greu a lledaenu'r celfyddydau	Gallu adnabod a diffinio eiddo deallusol  Dyfeisio incwm drwy ddefnyddio technoleg ddigidol a llwyfannau ar-lein
	Gwneud defnydd o'r cyfleoedd sydd ar gael ar gyfer rhyddhad treth (lle bo hyn yn briodol a chymwys)	Cynhyrchu incwm drwy gynlluniau rhyddhad treth y Llywodraeth

Gweithgarwch	Nodweddion	Dangosyddion llwyddiant
Gweithgarwch rhyngwladol	Bod â strategaeth ryngwladol (lle bo hynny'n berthnasol a phriodol)	Gallu esbonio pam y mae'n cynnal gweithgarwch rhyngwladol  Gweithgarwch rhyngwladol yn cynnig manteision diwylliannol, ariannol a/neu o ran enw da
Rhannu a chydweithio	Hyrwyddo'r defnydd ar y cyd o wasanaethau a gwaith	Cyflawni arbedion gwaelodol drwy bartneriaeth a chydweithio
Sgiliau a hyfforddiant	Bod â strategaeth datblygu'r gweithlu	Darparu cyfleoedd i brentisiaid, interniaid a hyfforddeion
Cyfraniad at yr economi leol	Gweithgareddau'n cael effaith gadarnhaol ar fusnesau lleol	Ymchwil seiliedig ar dystiolaeth sy'n dangos effaith economaidd gadarnhaol
Gweithio drwy'r celfyddydau i ddatblygu cyfleoedd mewn cyd-destunau eraill	Deall sut y gall ei waith fod yn berthnasol mewn amrywiaeth o wahanol sefyllfaoedd economaidd, diwylliannol a chymdeithasol	Tystiolaeth o weithgarwch o safon mewn meysydd megis y celfyddydau a phobl ifanc, y celfyddydau ac iechyd, y diwydiannau creadigol
Cydymffurfio	Deall a chyflawni ei rwymedigaethau adrodd statudol, a chydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol a (lle	Ffeilio cyfrifon blynyddol a ffurflenni statudol yn brydlon  Systemau ar waith i roi sicrwydd ynghylch materion cydymffurfio allweddol

Gweithgarwch	Nodweddion	Dangosyddion llwyddiant
	bo'n briodol) yr holl reoliadau elusennau	
	Cyfleoedd cyfartal	Bod â pholisiau blaengar
Perthynas â rhanddeiliaid	Cyfarfod yn rheolaidd ag arianwyr a rhanddeiliaid	Darparu gwybodaeth o safon Mynychu cyfarfodydd a digwyddiadau'r bwrdd
Polisi	Cynaliadwyedd amgylcheddol wedi'i integreiddio i bolisiau a chynllun busnes	Llofnodwr Siarter Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru Wedi sicrhau achrediad y Ddraig Werdd neu safonau cydnabyddedig eraill y diwydiant
	Mesur cynnydd ac adrodd arno	Wedi lleihau ôl troed carbon Defnydd llai sy'n cael effaith bositif ar y waelodlin
Rheoli gweithredol	Hyrwyddo'n weithredol ailgylchu	Lleihau ôl troed carbon
	Monitro ac adolygu effeithlonrwydd ynni	Defnydd llai sy'n cael effaith bositif ar y waelodlin
	Lleihau effaith amgylcheddol drwy gydweithio a gweithio ar y cyd	Partneriaethau a chysylltiadau ar waith

Gweithgarwch	Nodweddion	Dangosyddion llwyddiant
	Monitro ac adolygu goblygiadau amgylcheddol teithio a chynhaliaeth	Arferion gwaith gwyrdd ac ecogyfeillgar yn amlwg

## Rhagor o wybodaeth

Rydym ni'n disgwyl cydymffurfiaeth â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol a rheoliadau elusennol (os yw'n berthnasol). Yn benodol, rhaid cadw at y rhwymedigaethau ar gyfarwyddwyr gan y gwahanol Ddeddfau Cwmni ac Ansofedd ac ar Ymddiriedolwyr gan Ddeddf yr Ymddiriedolwyr.

### Dolenni defnyddiol:

Tŷ'r Cwmnïau

<https://www.gov.uk/government/organisations/Companies-House>

Comisiwn Elusennau

<https://www.gov.uk/government/organisations/charity-commission>

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

<https://culturalgovernancealliance.org/>

Llesiant a chynaliadwyedd

<http://futuregenerations.wales/>